

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 6ed Gorffennaf 2022

Croeso ac Ymddiheuriad - Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd, Emma Chappell a gair o weddi gan Idris Thomas

Presennol - Cadeirydd Emma Chappell ynghyd a'r Cynghorwyr, Richard Ll Jones, Ynyr Parri, Elwyn Jones, Sasha Williams, Lowri Ann James, Phyllis Ellis, Dawn Parry, Idris Thomas a Jane Pierce.

Ymddiheuriadau - Richard Jones, Rhian Evans-Hill, Elfed Wyn Williams, Elen George a Gareth Griffiths.

Datgan Buddiant - Sasha Williams, Datganodd nad oedd yn fuddiant personol, ond yn datgan diddordeb. Bu l'r Cyngorydd adael yr ystafell tra bu trafodaeth ar gynllunio Cefn Bach Bethel, C22/0560/18/DT

Cofnodion 7fed Fehefin 2022

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Phyllis Ellis (1)

Elwyn Jones (2)

Materion o'r Cofnodion

Is Bwyllgor Llwybrau - Etholwyd Dawn Parry a Lowri James fel aelodau o'r Newydd. Jane Pierce fydd cadeirydd y grŵp.

Cysgodfa'n Bws Bethel - Bu l Ynyr Parri ymweld â'r gysgodfa'n ar ein rhan. Yn dilyn adroddiad a gweld lluniau, penderfynwyd fod yn rhaid am y tro gael arbenigwr i geisio gwneud y gysgodfa'n yn ddiogel, nes byddwn yn gallu cynnwys cost un newydd yn y flwyddyn gyllidol nesaf.

Lôn Garret - Mae yn ymddangos na'r pwerdy yn Llanberis sydd yn berchennog ar y tir a'r ardal troi yn ben Lôn garet. Y clerc eisoes wedi cysylltu â First Hydro yn nodi'r broblem a gofyn am arwyddion perthnasol i'r lôn.

Wal ger Llys Gwynt, Penisa'r-waun - Y clerc i gysylltu ag Adref ynglŷn â cherrig ansefydlog gan mai Adref efallai sydd yn gyfrifol am y wâl ynghyd a'r tai.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Ardal Ni 2035 - Etholwyd Elwyn Jones a Lowri Ann James l gynrychioli'r Cyngor Cymuned a mynychu cyfarfodydd a gweithdai i ddatblygu'r cynlluniau.

Cadeirydd.....

Cynllunio

Dyma restr o gynlluniau a ddaeth i law yn ystod y mis:

C22/0561/18/Dt - 74 Caeau Gleision, Rhiwlas

Estyniad Llawr cyntaf yn y cefn ac estyniad deulawr ochor. - Dim Gwrthwynebiad

C22/0560/18/DT - Cefn Bach Bethel

Estyniad Ochor - Dim Gwrthwynebiad

C22/0606/18/DT - Rhyd y Fuwch, Bethel

Newidiadau i ddarpar gegin a man bwyta Newydd ar y llawr gwaelod, ynghyd ag estyniad llawr cyntaf. - Dim Gwrthwynebiad

C22 / 0588/18/DT - Tan y Marian, Dinorwig

Estyniad ac addasiadau ynghyd a throsi gofod y to yn llofft,. Dim Gwrthwynebiad

C22/0404/18/DT - Y Gaer Wen, Llanrug

Estyniad i dy presennol gyda Gwaith trin carffosiaeth a system cynaeafu twr glaw. Dim Gwrthwynebiad

C22/0589/18/LL - Tŷ Ni, Gallt y Foel

Tŷ Fforddiadwy Newydd.

Darllenwyd llythyr a ddaeth i law gan yr ymgeisydd i'r Cyngor, oedd yn nodi sawl pwynt i'r Cyngor ystyried. Mae'r Cyngor Cymuned wedi ystyried y pwyntiau a'r cynnwys ddwywaith o'r blaen. Mae'r penderfyniad ynglŷn â phob cais cynllunio gyda Chyngor Gwynedd. Os ydi'r cynlluniau yn cyrraedd gofynion Tŷ Fforddiadwy yng ngolwg pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd, yna bydd y penderfyniad i ganiatáu yn cael ei wneud o'r pwyllgor hwnnw.

Llwybrau

Bu i'r clerc yrru llythyr eto ynglŷn â'r giât anghyfreithlon ar lwybr ger Parc.

Llwybr rhif 3 i'w ychwanegu ar doriadau yn ardal Bethel. Llwybr yw oedd yn rhan o dir cyn iddynt adeiladu stad tai yno.

Derbyniwyd llythyr gan adran Llwybrau yn datgan fod rhai llwybrau yn yr ardal wedi cael eu cynnwys ar restr grantiau gwella mynediad ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Byddwn yn cael ein diweddarau yn fuan ar y sefyllfa yma.

Cadeirydd.....

Yr arwydd llwybr heibio Capel Bethel wedi rhydu yn ei waelod ac wedi torri. Angen Arwydd Newydd yno.

Arwydd Llwybr gyferbyn a Tan y Rhiw ar lôn Bwlch gwynt wedi disgyn.

Torri Llwybrau Rhiwlas - Mae'r clerc eisoes wedi cysylltu i gael amcan bris i dorri llwybrau Rhiwlas, gobeithio bydd cytundeb i'w torri yn fuan.

Adolygu Polisiâu a Rheolau'r Cyngor

Yn flynyddol mae'r Cyngor yn gorfod gwneud hyn, ond heb gael y cyfle tan nawr yn dilyn y pan demig. Nodwyd ambell newid sydd wedi cymryd lle ers 2019 mewn trefn yn dilyn newid i reoliadau gwlad, Diolch I bawb am gymryd amser yn nodi pwyntiau, i'w trafod, ac addasu lle bo angen. Bydd y clerc yn nodi ar y pwyntiau ac yna bydd y Cadeirydd yn llofnodi yn dilyn cadarnhau cywirdeb.

Clwb Ieuenctid - Cafwyd cadarnhad yn ystod y mis mai Pwyllgor Neuadd Bethel fydd y pwyllgor fydd yn cydweithio gyda Phwyllgor Pentre' Deiniolen a 2 gynghorydd i greu Is Bwyllgor Clybiau Ieuenctid. Penderfynwyd ethol Richard Jones a Sasha Williams I gynrychioli'r Cyngor. Bydd y clerc yn ymuno i gymryd munudau pan yn rhydd, ond yn sicr i'r cyfarfod cyntaf, lle bydd angen gosod a ffurfio Pwyllgor ffurfiol. Bydd aelodau'r Cyngor yn rhoi adborth yn ôl yn rheolaidd i'r Cyngor llawn. Byd hyn yn flwyddyn gyntaf i weithio ar y drefn yma, ac yn flwyddyn gyntaf i'r Cyngor gyllido'r clybiau, felly mae yn hanfodol fod polisiâu a rheolau yn bodoli o'r cychwyn. Mae Sasha yn trefnu gydag aelod o'r Cyngor Siôn Bryn ac yn trefnu cyfarfod cychwynol yn ystod y pythefnos nesaf.

O Gwmpas y Bwrdd

Loriau Heibio Garej Arfon, Deiniolen

Mae'n ymddangos fod Sat nav yn gyrru loriau trwm, mawr i fyny'r lôn gul yma. Mae hyn wedi digwydd sawl gwaith ac yn amhosib troi yn ôl. Nid yw bws yn mynd heibio fan hyn ers blynnyddoedd. Yn ogystal, mae loriau sydd yn danfon nwyddau i'r siop yn gorfod dadlwytho o'r Stryd Fawr. Mae angen arwydd yn nodi fod y lôn yn anaddas i gerbydau a loriau mawr trwm.

Bro Deiniol - Angen cysylltu ag Adra gan fod y goleuadau yma allan yn y nos, ac ymlaen yn ystod y dydd.

Cadeirydd.....

Yr Hen Ficerdy, Deiniolen

Wedi amser o adnewyddu'r Hen Ficerdy ger yr Eglwys, mae'n ymddangos ei fod wedi ail agor yn ddiweddar. I'r perwyl hyn, mae ansicrwydd ymysg y gymuned ynglŷn â threfniadau o bwy mae'r Cyngor Sir yn llochesu yno. Angen cadarnhad gan y Cyngor/Adran tai ynglŷn â hyn.

Cadarnhau Taliadau:

590 - £4400

591 - £336.00

592 - £420.00

593 - £66.14

Bydd Cyfarfod nesaf ar y 6ed Medi 2022

Cadeirydd.....